Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service



# Cynllun Gweithredu Adfer Natur

2023 - 2026

www.tancgc.gov.uk/cym

# Cefndir

Datblygwyd Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 gan Lywodraeth Cymru i gefnogi ac ategu'r amcanion llesiant hirdymor a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae cyrff cyhoeddus sy'n dod o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 hefyd yn ddarostyngedig i Ddyletswydd Adran 6. Mae'r Ddeddf yn cyflawni yn erbyn ymrwymiad y llywodraeth i gyflwyno deddfwriaeth newydd ar gyfer yr amgylchedd ac yn rhoi'r ddeddfwriaeth sydd ei hangen ar waith i gynllunio a rheoli adnoddau naturiol Cymru mewn modd mwy rhagweithiol, cynaliadwy a chydgysylltiedig, ac mae'n amlygu ymrwymiad y Llywodraeth i addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd.

Cyflwynwyd Dyletswydd Adran 6, Rhan 1 o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i wella bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau

yng Nghymru, sy'n hanfodol i'n llesiant. Mae'r ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol bod **i awdurdodau cyhoeddus geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer eu swyddogaethau mewn perthynas â Chymru, ac wrth wneud hynny hyrwyddo gwydnwch ecosystemau, cyn belled ag y bo'n gyson â gweithrediad priodol y swyddogaethau hynny.** Mae'r ddyletswydd bioamrywiaeth uwch i gydnabod y cysylltiad rhwng bioamrywiaeth a gweithrediad hirdymor ecosystemau.

Amlygir bod dal angen i awdurdodau cyhoeddus heb dir ystyried pob agwedd ar wytnwch, gan y gall eu penderfyniadau a'u gweithredoedd ddylanwadu ar ecosystemau'n anuniongyrchol, er enghraifft, trwy eu polisi caffael neu drwy benderfyniadau ac amodau cyllido.

Er mwyn cydymffurfio â'r Ddyletswydd Adran 6, rhaid i'r rhan fwyaf o awdurdodau cyhoeddus baratoi a chyhoeddi cynllun sy'n nodi pa gamau y maent yn eu cynnig i gynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo gwytnwch. Cyhoeddwyd adroddiad ar yr hyn y mae awdurdodau cyhoeddus unigol wedi'i wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd er 2019 yn ystod Gwanwyn 2023, ochr yn ochr â'r Cynllun hwn.



## Adran 1
### Cyflwyniad a Chyd-destun

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi ymrwymo i ragoriaeth gyda gweledigaeth i fod yn sefydliad o'r radd flaenaf. Mae'r Gwasanaeth yn cydnabod pwysigrwydd cynyddol yr angen i ddiogelu'r amgylchedd a gwarchod y cynefinoedd a'r adnoddau yn yr ardal rydym yn ei gwasanaethu.

Fel Gwasanaeth, rydym yn gweithredu ar draws 4,500 milltir sgwâr o ardal wledig yn bennaf sy'n ffurfio dwy ran o dair o dir Cymru, gan gynnwys chwe sir, sef Caerfyrddin, Ceredigion, Castell-nedd Port Talbot, Abertawe, Penfro a Phowys. Yn yr ardal hon mae Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI), Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AONBs).

Mae'r Gwasanaeth wedi ymrwymo i leihau ei effaith negyddol ar yr amgylchedd, a adlewyrchir trwy'r Cynllun Corfforaethol, Polisi Amgylcheddol, dogfennau canllaw, strategaethau ac ardystiadau.

Amlinellir nodau ac amcanion cynaliadwyedd ac amgylcheddol y Gwasanaeth yn yr Adroddiad Amgylcheddol Blynyddol a'r Strategaeth Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd 5 mlynedd a gyhoeddir ar wefan allanol y Gwasanaeth.

Fel Gwasanaeth Tân, mae yna ymrwymiad i fod yn gyfrifol yn amgylcheddol, ac fel y cyfryw, cyrhaeddodd y Gwasanaeth Lefel 5 Safon Rheoli Amgylcheddol y Ddraig Werdd yn 2014. Ers hynny, mae'r Gwasanaeth wedi ymrwymo i gynnal y lefel uchaf sydd ar gael bob blwyddyn hyd yma, yn fwyaf diweddar ym mis Chwefror 2023. Er mwyn cydymffurfio â'r Safon, mae gan y Gwasanaeth ystod eang o Weithdrefnau Amgylcheddol ac arweiniad ar gael i bob aelod o staff drwy'r wefan fewnol.

Defnyddir hyn i gefnogi ein System Rheoli Amgylcheddol ar draws y Gwasanaeth sy'n sicrhau gwelliant amgylcheddol parhaus ac yn codi ymwybyddiaeth o gynaliadwyedd amgylcheddol yn ein holl weithgareddau.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn aelod statudol o'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac mae'n adrodd yn flynyddol i Lywodraeth Cymru ar ein hamcanion Llesiant. Mae'r Gwasanaeth yn parhau i fod yn ymrwymedig i gefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac mae wedi croesawu ei ddyletswyddau a'i rôl fel partner statudol ar draws y 6 Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Mae Cynllun Strategol 2022-2027 yn cynnwys nodau strategol ac amcanion gwella gan gynnwys ymrwymiadau amgylcheddol.

Adolygir y Cynllun hwn yn flynyddol i gynhyrchu nodau a gwelliannau strategol ystyrlon ac amcanion llesiant yn erbyn ein blaenoriaethau strategol bob blwyddyn.

O dan Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, Rhan 1, mae'n ofynnol i'r Gwasanaeth, fel Awdurdod Cyhoeddus, baratoi a chyhoeddi cynllun sy'n nodi camau gweithredu arfaethedig y Gwasanaeth i wella bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau. Mae'r Adroddiad canlynol yn tynnu sylw at yr hyn y mae'r Gwasanaeth yn bwriadu ei wneud i gydymffurfio â'r Ddyletswydd Adran 6 ac i annog bioamrywiaeth i bob safle sy'n eiddo iddo, waeth pa mor fach neu fawr ydyw.

Mae'r Adroddiad ar gyfer pob Gorsaf Dân, cyfleuster Hyfforddiant ac adeiladau gweinyddol o fewn ystâd y Gwasanaeth a bydd yn cydymffurfio â Grŵp 2 yn Nhabl 1 o Ganllawiau Adrodd Adran 6 a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Math o Sefydliadau a chamau gweithredu mewn perthynas â'u swyddogaethau.

## Section 2

### Cynllun Gweithredu Adfer Natur

Cyhoeddwyd Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth cyntaf y Gwasanaeth 2020-23 ym mis Ebrill 2020 ac amlinellodd nodau ac amcanion y cyfnod 3 blynedd. Roedd y Cynllun yn defnyddio Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru y Llywodraeth i gydweddu ag amcanion y Gwasanaeth Tân. Cyhoeddwyd adroddiad ar wahân mewn perthynas â'r cyflawniadau y mae'r Gwasanaeth wedi'u gwneud tuag at yr amcanion o fewn y Cynllun.

Mae'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur 2023 -2026 hwn yn nodi camau gweithredu sydd wedi'u nodi'n benodol i gyflawni amcanion y Gwasanaeth i wrthdroi dirywiad bioamrywiaeth ac effaith y Gwasanaeth ar yr amgylchedd. Mae'r Cynllun Gweithredu yn crynhoi mwy na gwelliannau bioamrywiaeth yn unig ar ein safleoedd ond hefyd cyfleoedd i gydweithio â phartneriaid allanol a grwpiau cymunedol.

Mae'r Gwasanaeth yn ymateb i alwadau ar draws dwy ran o dair o ardal ddaearyddol Cymru, ond mae'r tir y mae Gorsafoedd Tân ac adeiladau gweinyddol yn ei feddiannu yn fach iawn. Mae'r tabl isod yn categoreiddio faint o fannau gwyrdd sy'n bresennol mewn lleoliadau'r Gwasanaeth ac o ganlyniad yn amlygu lle y gallwn gael dylanwad uniongyrchol mewn perthynas â gofynion Dyletswydd Adran 6.

| | Llai na 5% o fannau gwyrdd | Llai na 5-39% o fannau gwyrdd | Dros 40% o fannau gwyrdd |
|---|---|---|---|
| Nifer y lleoliadau | 37 | 16 | 4 |

Fel yr amlinellir yng Nghynllun Strategol 2022-2027, mae'r Gwasanaeth wedi ymrwymo i sicrhau cynaliadwyedd wrth ddarparu rhagoriaeth Gwasanaeth. Ein nod yw gwneud hyn drwy leihau'r defnydd o ynni, gweithio tuag at ddim gwastraff yn mynd i safleoedd tirlenwi a lleihau ein hôl troed carbon ar draws y Gwasanaeth flwyddyn ar ôl blwyddyn.

Mae'r Strategaeth Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd 5 mlynedd yn nodi prif egwyddorion, cynigion a chamau gweithredu gofynnol i leihau effeithiau amgylcheddol gweithgareddau a gweithrediadau'r Gwasanaeth.

Adolygir yr amcanion yn flynyddol ac maen nhw'n cael eu cyhoeddi yn ein Hadroddiad Amgylcheddol Blynyddol a thrwy ymrwymiadau corfforaethol amgylcheddol.

Mae'r Gwasanaeth yn adrodd yn erbyn 4 ymrwymiad gwella a lles, ac un ohonynt yw ymrwymiad i leihau effaith y Gwasanaethau ar yr amgylchedd.

Nod y Gwasanaeth yw gwella arferion a gweithgareddau gwaith yn barhaus gan ystyried yr effaith amgylcheddol tymor byr a thymor hir. Bydd y Gwasanaeth yn parhau i ymdrechu i leihau ei ôl troed carbon a pharhau

ag ymchwil i dechnoleg adnewyddadwy gynaliadwy werdd ar gyfer y fflyd ac adeiladau, tra'n chwilio am gyfleoedd i gydweithio i wella ei effaith ar yr amgylchedd. Nod y Gwasanaeth yw bod yn Wasanaeth Tân sy'n sensitif i'r amgylchedd. Nod ble mae datblygu cynaliadwy a materion amgylcheddol wedi'u hymgorffori yn ei holl brosesau ar gyfer gwneud penderfyniad a hynny er mwyn wella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.

Mae ystod eang o waith yn cael ei wneud o fewn y Gwasanaeth sy'n gweithio tuag at amcanion amgylcheddol. Mae'r prosiectau hyn yn cyd-fynd â Dyletswydd Adran 6 yn unol ag amcanion Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru. Mae'r amcanion hyn fel a ganlyn:

## Amcan 1

**Ennyn a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn i fioamrywiaeth ymwreiddio yn y broses benderfynu ar bob lefel**

## Amcan 2

**Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd sydd o'r pwys mwyaf a'u rheoli'n well**

## Amcan 3

**Gwneud ein hamgylchedd naturiol yn fwy cydnerth drwy adfer cynefinoedd sydd wedi'u diraddio a chreu cynefinoedd**

## Amcan 4

**Mynd i'r afael â'r prif bwysau ar rywogaethau a chynefinoedd**

## Amcan 5

**Gwella ein tystiolaeth, ein dealltwriaeth a'n gwaith monitro**

## Amcan 6

**Rhoi fframwaith llywodraethu a chymorth ar waith i gyflawni'r amcanion.**

## Adran 3

### Nodau ac Amcanion

Mae'r tabl isod yn dangos yr amcanion yng Nghynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru yn ogystal â'r amcanion y mae'r Gwasanaeth wedi'u datblygu ochr yn ochr â hwy. Bydd y rhain yn cael eu monitro'n rheolaidd, a bydd cynnydd yn cael ei amlygu yng nghyfarfodydd chwarterol y Grŵp Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd. Bydd yr amcanion hyn yn cael eu defnyddio i lywio penderfyniadau mewn gweithgareddau a phrosiectau dros y 3 blynedd nesaf.

Gan nad yw'r Gwasanaeth Tân yn berchen ar lawer iawn o dir, mae'r amcanion a nodir yma'n seiliedig yn bennaf ar greu partneriaethau cydweithredol. Mae modd i ni hefyd greu ymwybyddiaeth ymysg staff, annog bioamrywiaeth ar dir cyfagos a gwneud penderfyniadau i leihau'r effeithiau ar fioamrywiaeth a'r amgylchedd gymaint â phosibl.

| Amcanion Cynllun Gweithredu Adfer Natur (NRAP) Cymru | Amcanion NRAP ar gyfer y Gwasanaeth Tan ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru 2023 -26 |
|---|---|
| **Amcan 1**<br><br>Ennyn a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn i fioamrywiaeth ymwreiddio yn y broses benderfynu ar bob lefel | **1.1** Parhau i gefnogi ymgysylltiad cymunedol y Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol.<br><br>**1.2** Codi ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth ymhlith staff trwy hyfforddiant ymwybyddiaeth, gan dynnu sylw at ei bwysigrwydd i'r ardal rydym yn ei gwasanaethu a sut y gall ein gweithgareddau gael effaith gadarnhaol a negyddol arni.<br><br>**1.3** Sefydlu diwylliant o ymwybyddiaeth a chadwraeth o rywogaethau a chynefinoedd drwy addysg ar ein safleoedd ar draws y Gwasanaeth.<br><br>**1.4** Gweithredu a datblygu Siarter Tanau Gwyllt Cymru – gan ddarparu gwybodaeth am ardaloedd strimynnau atal tân a gwahanol fathau o gynefin i griwiau gweithredol yn y lleoliad drwy'r Derfynell Data Symudol. |
| **Amcan 2**<br><br>Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd sydd o'r pwys mwyaf a'u rheoli'n well. | **2.1** Cydweithio â sefydliadau allanol i dynnu sylw at rywogaethau o bwysigrwydd ar y safle ac ar dir cyfagos.<br><br>**2.2** Lleihau allyriadau carbon uniongyrchol o fflyd y Gwasanaeth i wella ansawdd aer lleol.<br><br>**2.3** Parhau i weithio gyda Thimau Cynnal a Chadw'r Tiroedd i annog amrywiaeth ar y safle. Caniatáu i ardaloedd dyfu'n wyllt a heb eu cadw, wrth hysbysu'r cyhoedd a'r staff a chodi ymwybyddiaeth o'r manteision..<br><br>**2.4** Cydweithio â Grwpiau Bywyd Gwyllt a Bioamrywiaeth leol i annog rhywogaethau i'r safle ac atal dirywiad bioamrywiaeth ar lefel leol.. |

| | |
|---|---|
| **Amcan 3**<br><br>Gwneud ein hamgylchedd naturiol yn fwy cydnerth drwy adfer cynefinoedd sydd wedi'u diraddio a chreu cynefinoedd. | **3.1** Gweithio gyda sefydliadau allanol lle bo hynny'n bosibl i reoli ardaloedd sydd â chynefinoedd pwysig, nodi a mapio'r cynefinoedd hyn ar draws yr ardaloedd yr ydym yn eu gwasanaethu.<br><br>**3.2** Mapio rhywogaethau neu ardaloedd sy'n bwysig o ran bioamrywiaeth ar Derfynellau Data Symudol i gynorthwyo criwiau i wneud penderfyniadau wrth fynychu achosion.<br><br>**3.3** Gweithio gyda grwpiau cymunedol lleol i gynyddu gwydnwch a galluogi rheoli tir lleol o fewn cymunedau ffermio |
| **Amcan 4**<br><br>Mynd i'r afael â'r prif bwysau ar rywogaethau a chynefinoedd. | **4.1** Sicrhau bod ardaloedd sy'n bwysig o ran bioamrywiaeth yn cael eu hamlygu ar y Derfynell Data Symudol i griwiau tân fod yn ymwybodol ohonynt.<br><br>**4.2** Gweithio gyda chymunedau lleol ym mhob rhan o Gymrui sicrhau bod rhywogaethau a chynefinoedd yn hysbys ac yn cael eu hadnabod. |
| **Amcan 5**<br><br>Gwella ein tystiolaeth, ein dealltwriaeth a'n gwaith monitro. | **5.1** Sefydlu gweithgor Adfer Natur i fonitro'r amcanion i gyfrannu at Gyfarfodydd chwarterol y Grŵp Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd.<br><br>**5.2** Gwella ymwybyddiaeth staff o ran lleihau allyriadau, annog bioamrywiaeth ac adferiad natur.<br><br>**5.3** Gwella monitro defnydd dŵr a gosod offer Casglu Dŵr Glaw ar safleoedd addas;<br><br>**5.4** Ystyried gwelliannau/monitro defnydd dŵr mewn achosion.<br><br>**5.5** Gwella ein Systemau Rheoli Busnes a gosod a monitro Paneli Solar ar leoliadau'r Gwasanaeth. |
| **Amcan 6**<br><br>Rhoi fframwaith llywodraethu a chymorth ar waith i gyflawni'r amcanion. | **6.1** Cyfraniad y Tîm Arweinyddiaeth Weithredol at weithredu Amcanion y Cynllun Gweithredu Adfer Natur.<br><br>**6.2** Monitro ac adrodd ar Gynllun Gweithredu Adfer Natur y Gwasanaeth 2023-26 yng Nghyfarfod chwarterol y Grŵp Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd.<br><br>**6.3** Darparu diweddariadau ar amcanion y Cynllun Gweithredu Adfer Natur yn yr Adroddiad Amgylcheddol Blynyddol. |

# Adran 4

## Cyflawni, Monitro ac Adolygu

Mae'r Gwasanaeth wedi ymrwymo i weithio tuag at yr amcanion a amlinellir yn y Cynllun Gweithredu Adfer Natur hwn dros y 3 blynedd nesaf. Bydd y gwaith o gyflawni'r amcanion yn cael ei fonitro gan y Rheolwr Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd a'r Gweithgor Adfer Natur, a bydd yn cael ei gyflawni trwy gyfleoedd cydweithio allanol, y gallu i addasu ac adnoddau.

Caiff yr Amcanion eu monitro bob chwarter o dan y Ddeddf Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd Cyfarfodydd Grŵp ac adroddir arnynt yn yr Adroddiad Amgylcheddol Blynyddol a gyhoeddir ar wefan allanol y Gwasanaeth. Adroddir ar uchafbwyntiau a chanlyniadau yn Adroddiad Monitro Cynllun Gweithredu Adfer Natur Dyletswydd Adran 6 bob 3 blynedd.





# Cyfryngau Cymdeithasol

**Rydym yn eich annog i gadw llygad ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol ar gyfer diweddariadau**

**HOFFI** DILYN **RHANNU**

**LIKE** FOLLOW **SHARE**

**Ein Negeseuon Diogelwch**

Our Safety Messages

# Cynllun Gweithredu Adfer Natur

2023 - 2026

Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

HOFFI DILYN RHANNU
LIKE FOLLOW SHARE

**Ein Negeseuon Diogelwch**
Our Safety Messages

www.tancgc.gov.uk/cym